

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Mehefin 2019

[Full Council Meeting June 2019](#)

Rhoddir rhybudd y cynhelir **Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Mis Mehefin** ar **Nos Lun, 24 Mehefin 2019 yn Canolfan Y Fron i gychwyn 7.00 yr hwyr** *ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.*

Notice is hereby given that the **June full Council meeting** will be held on **Monday, 24 June 2019 at Canolfan Y Fron to commence 7:00 pm** and you are *summoned to appear*

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i'r cyfarfod gychwyn.
Planning applications will be available to view twenty minutes before the start.

Amgaeaf y canlynol i chwi
The following is enclosed -

- 1) Rhaglen Cyfarfod 24 Mehefin 2019 - [Agenda for the Council Meeting 24 June 2019](#)
- 2) Cofnodion drafft Cyfarfod Blynyddol 2019 – [Draft Minutes of the 2019 Annual General Meeting](#)
- 3) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 20 Mai 2019 - [Draft Minutes of the Council Meeting 20 May 2019.](#)
- 4) Cofnodion drafft Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 5 Mehefin 2019 – [Draft Minutes of the Finance Committee held 5 June 2019](#)

Cyfarfod / Meeting	Cyngor Llawn – Full Council
Dyddiad / Date	Nos Lun, 24 Mehefin 2019 / Monday, 24 June 2019
Amser/ Time	7.00 yr hwyr / pm
Lleoliad/ Location	Canolfan Y Fron

Rhaglen / Agenda

(noder y bydd Ann Llwyd yn bresennol i gyfieithu'r trafodaethau / note that Ann Llwyd will be in attendance to translate proceedings)

- 1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome*
- 2 Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau / *Apologies from Members*
- 3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen / *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.*
- 4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd 20 Mai 2019 fel Rhai Cywir- *To Accept the Minutes of the Full Council meeting held 20 May 2019, as a true record .*
- 5 Ymgysylltu Gyda'r Cyhoedd – *Consulting With The Community .*
Derbyn adroddiad Caryl Lewis o Cwmni Celyn – Report by Caryl Lewis of Cwmni Celyn
- 6 Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes*
 - a) **Cae Halen Bach, Llandwrog**
Diweddariad ar y noson.
 - b) **Giat Cae Pêl-droed Y Fron / Fron Football Field Gate**
Diweddariad ar y noson.
 - c) **Talu am barcio ar traeth Dinas Dinlle - *Parking Charges at Dinas Dinlle Beach***

Derbyniwyd ymateb gan Cyngor Cymuned Llanllyfni fel a ganlyn-

Diolch yn fawr i chi am eich llythyr yn gofyn am gefnogaeth i'ch gwrthwynebiad i gynllun Cyngor Gwynedd i osod peiriannau parcio yn Ninas Dinlle.

Mae aelodau Cyngor Cymuned Llanllyfni yn ymwybodol bod trafodaeth eisoes wedi eu cynnal rhwng aelodau Llanllyfni, Llandwrog, a Llanwnda yn 2016 i osod peiriannau parcio yn Ninas Dinlle, gyda'r elw yn mynd tuag at gynnal y Toiledau a Gwasanaethau Glan Mor.

Bu'r prosiect hwn yn fater o drafodaeth yng nghyfarfodydd y Partneriaeth rhwng y tri chyngor uchod, ac yn dilyn sawl cyfarfod efo Barry Davies Swyddog Morwrol Gwynedd, daeth yn amlwg fod cryn ddiddordeb a chefnogaeth i'r cynllun.

Cynhaliwyd cyfarfod bellach yn Neuadd Goffa Groeslon 4ydd o Hyfref 2016, gyda'r gobaith o symud ymlaen efo'r cynllun. Presennol - OP Huws, Barry Bracegirdle (Cyngor Llanllyfni), Cyng. Gwynedd - Eric Jones, Cadeirydd y Cyngor ac aelod lleol, Barry Davies Swyddog Morwrol (Cyngor Gwynedd), Alun Wyn Jones, Hywel Owen, Gwyn Owen Jones, (Cyngor Llandwrog) Iwan Morris (Swyddog Adfywio Cyngor Gwynedd).

'Roedd awydd a chytundeb i symud ymlaen, gan bwysleisio eto nad oedd pobl leol yn talu, gyda'r elw yn mynd tuag at gynnal y gwasanaethau lleol, ond yn anffodus nid oedd symudiad pellach oddi wrth Gwynedd.

Dim yn annisgwyl, mae Gwynedd wedi penderfynu symud ymlaen eu hunain erbyn hyn, ond yn anffodus hyd y gwyddom nid oes ymgynghori gyda thrigolion lleol, hefyd nid oes ymrwymiad nad yw'r pobl leol yn talu, a hefyd gwarrant byddai'r elw yn mynd tuag at gostau cynnal y toiledau (i bobl leol ac ymwelwyr), ar hyn o bryd ar gost Cyngor Llandwrog.

Mewn gwirionedd er y gwrthwynebiad, mae'n debygol iawn bydd Gwynedd yn parhau a'u bwriad, ond mae'n gresyn na fydd yr arian yn cael ei wario'n lleol, fel yn cynllun y Cyngorau Cymuned, ond yn hytrach caiff ei lowcio gan y canol.

Os felly mae Cyngor Llanllyfni yn hapus i gefnogi eich gwrthwynebiad.

Alwen Johnson, Clerc.

Uwch Reolwr Economi a Chymuned Senior Manager Economy & Community

Llyr B Jones

Gofynnwch am/Ask for: Llyr B. Jones
☎(01286) 679 219

✉ llyrbjones@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: LBJ/GH
Eich Cyf / Your Ref:



Eleri Thomas
Clerc Cyngor Cymuned Llanwnda
1 Greenbank
Groeslon
Caernarfon
Gwynedd LL54 7DP

30ain o Ebrill, 2019

Annwyl Ms Thomas

Cyf – Codi Ffi am Barcio Traeth Dinas Dinlle

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8fed o Ebrill anfonwyd at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r uchod. Mae eich llythyr wedi ei gyfeirio at fy sylw, ac ysgrifennaf atoch i gynnig diweddariad o'r sefyllfa a cheisio ymateb i'r materion a gyfeiriwch atynt.

Nodir yn eich llythyr fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi cais Cyngor Cymuned Llandwrog i beidio â chodi ffi am barcio ar draeth Dinas Dinlle.

Fel sydd hefyd yn cael ei gydnabod yn eich llythyr, mae Cyngor Gwynedd (fel nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru) yn wynebu bwch ariannol sylweddol yn ei gyllideb yn 2019/20 a thu hwnt, ac yn wynebu penderfyniadau anodd iawn o daro cydbwysedd rhwng cynyddu Treth y Cyngor a thorri ar adnoddau i ddarparu gwasanaethau. Cyflwynwyd adroddiad ar Gyllideb 2019/20 i Gyngor Llawn Cyngor Gwynedd ar 7fed o Fawrth eleni, oedd yn ymgorffori rhestr o arbedion er mwyn cyfarch y bwch ariannol. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r broses o lunio rhestr o'r fath, gan gynnwys yr ymgynghoriadau cyhoeddus cysylltiedig â'r ymdrech gwirioneddol i leihau'r ardrawiad bosib ar bobl Gwynedd.

Wrth gymeradwyo'r Gyllideb ar gyfer 2019/20, bu'n ofynnol i gadarnhau pecyn o gynlluniau arbedion a bydd Adranau perthnasol yn symud ymlaen i'w gweithredu. Yn wir, o fewn y pecyn yma mae cynllun ar gyfer sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle.

Er bod y bwriad o sefydlu ffioedd parcio wedi ei gymeradwyo, mae'n werth nodi fod angen gwaith pellach er mwyn datblygu'r manylion cyn y gellir ei weithredu. Rydym yn ymwybodol iawn fod pryderon wedi eu datgan yn lleol, a byddem yn awyddus i drafod ymhellach, ac ystyried trefniadau i leihau pryderon ble fod hynny'n bosib. Gan nad yw'r trefniadau wedi eu cadarnhau hoffwn gyflwyno'r sylwadau cychwynnol isod mewn ymateb i'r materion penodol a nodwyd gennych

- a) Fel rhan o'r trefniadau arfaethedig, bwriedir rhoi gorchymyn parcio ffurfiol ar y safle. Byddai hyn yn ein galluogi i gymryd camau gorfodaeth yn erbyn cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01766 771 000

Uwch Reolwr Economi a Chymuned Senior Manager Economy & Community

Llyr B Jones

gyda gofynion gorchymyn o'r fath. O ganlyniad byddai modd i swyddogion gorfodaeth sifil Cyngor Gwynedd fonitro'r sefyllfa.

- b) Bwriedir sefydlu trefniadau parcio ar dir sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Rhagwelir y byddwn yn trafod y manylion gyda Chyfoeth Naturiol Cymru sydd hefyd yn berchen ar dir yn yr ardal. Bydd manylion megis dyluniad, gosodiad, nifer o gerbydau ac ati yn rhan o'r gwaith rhagbaratoi manwl sydd angen ei wneud ar gyfer y cynllun.
- c) Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn meysydd parcio ger prif draethau'r sir, nad ydynt yn effeithio yn andwyol ar fwynderau trigolion lleol. Yn yr achos yma, trefniadau tymhorol yn unig sydd dan sylw, a rhagwelir y byddai modd i breswylwyr lleol archebu Tocyn Parcio Lleol ar gyfer defnyddio'r maes parcio.
- d) Drwy weithredu'r cynllun (ynghyd â gweddill o'r cynlluniau arbedion a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 7fed o Fawrth) bydd modd i'r Cyngor gyfarch y bwch ariannol. Drwy wneud hyn, bydd modd i'r Adran gynnal ei weithgareddau a swyddogaethau presennol, gan gynnwys trefniadau rheoli traethau a'r arfordir. Mae ffioedd parcio yn daladwy ar feysydd parcio ger prif draethau (gan gynnwys meysydd parcio nifer o sefydliadau eraill) sy'n parhau i fod yn hynod boblogaidd. Fel arfer, mae'r meysydd parcio yn cynnig mynediad hwylus a diogel i rannau arbennig o'r arfordir, gyda ffi parcio yn cael ei ystyried yn rhesymol.

Gobeithiaf fod y sylwadau uchod o gymorth, ac yn adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni. Mae angen gwaith pellach i ddatblygu'r manylion yn llawn, a hyderaf y daw gwybodaeth bellach ar gael maes o law. Os hoffech drafod y mater ymhellach mae croeso i chwi gysylltu â mi.

Yn gywir



Llyr B Jones

Uwch Reolwr Economi a Chymuned

7 **Derbyn Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 5 Mehefin 2019 fel rhai cywir - *To accept the minutes of the Finance Committee held 5 June 2019, as a true record***

8 **Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes***

9 **Materion Yn Codi Gan Aelodau – *Matters Arising From Members***

Cyng. David C Davies -
Giat Fynwent Bry'rodyn Gate

Cllr. Eddie Willcox –
Grŵp Datblygu Y Fron Development Group

Rheolwr
Llwybr 38 / Footpath 38 – Hafoty Wen- Cwynion fod ffermwr wedi cau y llwybr.

Fynwent Llandwrog Cemetery– cwyn gan yr ysgol fod yna ordyfiant ar y gornel. Rheolwr wedi trefnu i Ifan Williams ymdrin y gordyfiant

Hysbysfwrdd Llandwrog Noticeboard– Derbyniwyd ohebiaeth gan trigolyn o bentref Llandwrog fod hysbysfwrdd y pentref angen ei atgyweirio. Mae'r rheolwr yn disgwyl prig an saer lleol. Communication received from a resident of Llandwrog that the noticeboard needs repairs. The Manager is awaiting costs from a local joiner.

Cyfrifiadur Y Cyngor / Council Computer – Diweddariad ar y noson / Update in the evening

Gohebiaeth / *Communication*

10 **Un Llais Cymru / *One Voice Wales***
Model Brotolcol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref /
Model Local Resolution Protocol for Town & Community Councils

Copi ynglwn / Copy attached - Wedi cylchredeg / Communication Circulated.

GWEITHREDU – ystyried mabwysiadu'r model ar y noson, neu cyfeirio at y Panel Rheolau Sefydlog i bori frosto cyn argymhell ei fabwysiadu

ACTION REQUIRED – to consider adopting the model in this meeting or refer to the Standing Orders Panel for scrutiny before recommending for adopting.

11 **Grŵp Cyswllt Chwarel Moel Tryfan ac Alexandra (CCSQ) – Moel Tryfan & Alexandra Liasion Group (CCSQ)**

12 Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd - Cloddiad Archaeolegol Dinas Dinlle - Gwynedd Archaeological Trust - Archaeological Excavation Dinas Dinlle

Gwybodaeth an cloddio yn Dinas Dinlle yn Awst 2019. Diwrnod agord 17 Awst 2019. Information to a dig at Dinas Dinlle during August 2019. Open day 17 August 2019

GWEITHREDU – derbyn y wybodaeth
ACTION REQUIRED – to receive the information

13 Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Arfon Dwyfor / One Voice Wales – Area Meeting
Cyfarfod 7 yr hwyr Nos Fercher 17 Mehefin 2019 Allt Pafilwin, Caernarfon
Meeting of the Area Committee 7pm ,7 June 2019 Pavilion Hill, Caernarfon

14 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications
Ceisiadau Mehefin 2019 - Applications for June 2019

Dim ceisiadau / No applications

GWEITHREDU – cynnig sylwadau, gwrthod neu caniatáu y cais/ceisiadau
ACTION REQUIRED – to offer comments, reject or approve the development/s

Materion Ariannol / Financial Matters

15 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Mai 2019 – Income Received May 2019

Manylion / Details	Cyfanswm
Ffioedd Claddu / Burial Fees	£1,846.00
Beachcroft – Ad-daliad colled Lloches Bws Cae'r Moel	£2,175.69

16 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved by Council

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Rheolwr – Mehefin 2019 – Managers salary June 2019	£564.09		Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Mehefin 2019 – Income Tax June 2019	£152.88		Uniongyrchol/Direct
Lwfans y Rheolwr – Mehefin 2019 – Managers Allowance June 2019	£24.00		Uniongyrchol/Direct
Ann Llwyd – Cyfiethu Mehefin / Translation Costs June	£100.00		101903
Post Brenhinol – Royal Mail	£3.15		101904

17 Dyddiadau Cyfarfodydd Nesaf / Dates of Next Meetings

Cyfarfod / Meeting – **Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Gorffennaf / July Full Council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 15 Gorffennaf 2019 / [Monday 15 July 2019](#)
Amser / Time - 7.30 yr hwyr / pm

Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Penref Y Groeslon Village Hall

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**

Pwrpas / Purpose – Trafod Polisi Dosbarthu Rhoddion / Adopt Policy for the Distribution of Grants

Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed

Amser / Time - i'w gadarnhau / to be confirmed

Lleoliad / Venue Neuadd – i'w gadarnhau / to be confirmed

18 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn – 15 July 2019.

Matters to be raised by members in the next meeting - 15 July 2019)

Diwedd - end